

The Welsh Assembly Government's response to the National Assembly for Wales' Audit Committee report -- (2) 09-06 – *Work-Based Learning*.

General Response

The Assembly Government welcomes the Audit Committee's report and accepts all of the recommendations made.

For future similar major projects

- (i) **The Assembly Government should require all third-party providers in receipt of funding to participate fully in essential training and implementation arrangements for any new projects or initiatives**

Response

Accepted. The Director of the Department for Education, Lifelong Learning and Skills (DELLS) will submit a paper to the Welsh Assembly Government Senior Business Team in January 2007 setting out the lessons learned from the contracting arrangements of the Work Based Learning project. The lessons learned include the importance of facilitating compulsory training in appropriate circumstances.

- (ii) **The Assembly Government should incorporate the practical lessons learned from the implementation of the LLWR, and the issues brought out in this report, into its project plans for future projects of a comparable size or nature.**

Response

Accepted. The Director of DELLS will submit a paper to the Assembly Government Senior Business Team in January 2007 setting out the lessons learned from the implementation of the LLWR. This will ensure that the Directors of both policy and corporate departments can consider the issues brought out in the report within the planning of any future large-scale projects.

- (iii) **ELWa took a decision to rely only on post-payment validation checks within the LLWR, but complete reliance these on checks can only be appropriate if discovered error rates are at reasonable levels. **The****

Assembly Government should amend its approach in this area if rates do not improve.

Response

Accepted. The current approach of post validation checks is now supported by robust mechanisms (Audit escalation procedures and Provider Performance Reviews) which are designed to strengthen underlying systems and controls. The Assembly Government considers that this approach is resulting in a significant reduction in error rates. The percentage of providers that received qualified reports in respect of the 'use of funds' has reduced from 41% in 2005-06 to 22% in the current year to date. This approach will be regularly monitored, and, if necessary, adjusted to ensure that the improvement continues.

To strengthen controls and audit arrangements.

- iv) **The Assembly Government should introduce a minimum required standard of internal control to be applied to all its training providers from the new contracting phase in 2007. The standard should be rigorous, and could be graded according to the size of the organisation and level of funding being received. It should include essential checks that each organisation must have in place to secure the proper operation of funding received.**

Response

Accepted. A guidance document has been prepared for the current contract round and was issued to providers and placed on the Assembly Government web site in August 2006. This guidance sets out the key evidence requirements providers must comply with to support the funding paid to them by the Assembly Government. The document will be updated and reissued to accompany the revised Programme Specification for the contracting round from August 2007.

- v) **As part of its Provider Performance Review process, the Assembly Government should grade systems of internal control at training providers explicitly as 'acceptable' or 'unacceptable'. These assessments should incorporate the results of all audit work undertaken at providers, including that in relation to the use of funds provided.**

Response

Accepted. Under the current Provider Performance Review (PPR) system, all providers are categorised as 'satisfactory', 'some concerns' or 'serious concerns'

for audit purposes, taking into account all of the audit evidence available at the date of the review. This will be summarised as 'acceptable' or 'unacceptable' for future reviews. The next full PPR will be carried out in autumn 2007.

- vi) The Assembly Government should adopt a flexible audit approach, placing reliance on systems where appropriate, but seeking more direct audit evidence where greater risk has been assessed, such as with many smaller providers.**

Response

Accepted. The balance of systems work to data testing is set out in a three year risk based audit strategy which is reviewed each year to formulate an annual audit plan. This strategy includes differentiated approaches for large and small providers. Providers with contracts over £1m are visited at least annually. Higher risk smaller providers are reviewed annually and moderate risk smaller providers are reviewed on alternate years. The current three year strategy expires on 31 March 2007 and a fully revised strategy will be prepared for the 3 year period commencing 1 April 2007.

- vii) The Assembly Government should commence escalation procedures with all those providers whose system of internal control is assessed as 'unacceptable', and who fail subsequently to complete their self audits within agreed timescales. The Assembly Government should also closely monitor the results of self-audits to ensure that, where they result in a need for substantial recoveries of funding, the root causes of such problems are properly addressed through, for example, additional training or guidance.**

Response

Accepted. All providers with qualified audit opinions who subsequently fail to complete their self audits within agreed timescales will be placed on audit escalation procedures. This procedure has already been implemented for all visits reported after 1 November 2006. For all self audits, checklists are prepared by the DELLS Provider Audit and Governance Service (PAGS) which provide a step by step guide to preparing and undertaking the audit. This is issued to the provider prior to the commencement of the self audit. The Assembly Government, through monitoring the results of routine and self-audits, will continue to identify any training and guidance needs arising from thematic weaknesses.

For future contract arrangements with training providers

- viii) **The Assembly Government should undertake the 2007 contracting round based on a firm assessment of the standards and abilities of training providers required, and be explicit about the performance expected from the providers it appoints to deliver its work-based learning programmes. The contracts should also include firm probation arrangements to deal fairly and robustly with any early evidence of poor performance.**

Response

Accepted. Preparatory work for the 2007 contract round is well underway. The Programme Specification forms part of the contract with providers and has been revised and simplified to ensure that the performance standards expected from providers are absolutely clear.

In addition, the criteria for awarding contracts will be based on pre-defined standards informed by the knowledge base that has now been built up through PPR. Within these criteria it will be important to ensure that there remain an adequate number of providers to cover the full range of different programmes, subject areas and geographical locations required to meet the needs of existing and future learners and businesses. The criteria will be finalised for issue with the tender specification in December 2006.

Revised contracts are currently being developed and will include firm probationary arrangements. These will be finalised for issue in the summer of 2007.

- ix) **As well as requiring remedial action plans from individual providers, the Assembly Government should use the results from the PPRs to inform actions required to address areas of shortcoming as a whole, for example in learner attainment levels, and to identify and promote good practice so as to help raise standards further overall.**

Response

Accepted. The Assembly Government has put in place a number of strategies to address shortcomings in the provider network as a whole, identified through PPR and Estyn inspections:

- The Performance Improvement Adviser programme, as well as giving individualised consultancy support to providers, includes 'good practice' events which are open to all providers. The first of these (including learner attainment) took place in March 2006 and the second, including sessions on data management and child protection, are in November 2006.*

- *The £500k Quality Improvement Fund, which operated between October 2005 and June 2006, supported 15 provider-led, collaborative projects designed to address common shortcomings in post-16 learning. The outcomes of the projects have been disseminated through the Assembly Government website and Dysg's provider networks. A second round of funding is planned for 2007-08.*
- *The Assembly Government is also supporting a series of discrete projects which will support providers to improve the delivery of training, leadership and management in work-based learning, and the quality of pre-entry learning programmes.*

During 2007, the Assembly Government will undertake a 'pause and review' of PPR to strengthen the process. This will include further consideration of mechanisms to address common shortcomings, such as poor learner attainment levels, identified through PPRs.

Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad gan Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru -- (2) 09-06 – Dysgu Seiliedig ar Waith.

Ymateb Cyffredinol

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Archwilio ac yn derbyn yr holl argymhellion a gynigiwyd ganddynt.

Ar gyfer prosiectau mawr tebyg yn y dyfodol

(i). Dylai fod Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr trydydd parti sy'n cael arian cyhoeddus gymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant hanfodol ac mewn unrhyw drefniadau i weithredu prosiectau neu fentrau newydd

Ymateb

Derbyniwyd. Bydd Cyfarwyddwr yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (AADGOS) yn cyflwyno papur i Dîm Busnes Uwch Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ionawr 2007 sy'n nodi'r gwersi a ddysgwyd yn sgil y trefniadau contractio ar gyfer y prosiect Dysgu Seiliedig ar Waith. Mae'r gwersi a ddysgwyd yn cynnwys pwysigrwydd hybu hyfforddiant gorfodol yn yr amgylchiadau priodol.

(ii) Dylai Llywodraeth y Cynulliad gynnwys y gwersi ymarferol a ddysgwyd wrth weithredu'r LLWR, ynghyd â'r materion a amlygwyd yn yr adroddiad hwn, yn ei chynlluniau ar gyfer prosiectau yn y dyfodol sydd o'r un maint a'r un natur.

Ymateb

Derbyniwyd. Bydd Cyfarwyddwr yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (AADGOS) yn cyflwyno papur i Dîm Busnes Uwch Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ionawr 2007 sy'n nodi'r gwersi a ddysgwyd wrth weithredu'r LLWR. Bydd hyn yn sicrhau bod Cyfarwyddwyr yr adrannau corfforaethol a'r adrannau polisi yn gallu ystyried y materion a ddaeth i'r amlwg yn yr adroddiad wrth gynllunio unrhyw brosiectau mawr yn y dyfodol.

(iii) Penderfynodd ELWa ddibynnu ar broses o ddilysu ar ôl gwneud taliadau o fewn y LLWR, ond ni ddylid dibynnu ar y gwiriadau hyn oni bai fod cyfradd y gwallau'n rhesymol. Dylai Llywodraeth y Cynulliad newid ei dulliau o weithredu yn y maes hwn os nad yw'r cyfraddau'n gwella.

Ymateb

Derbyniwyd. Bellach cefnogir y system bresennol o ddilysu gan ddulliau cadarn iawn (gweithdrefnau cynyddu archwiliadau ac Adolygu Perfformiad Darparwyr) a gynlluniwyd er mwyn cryfhau'r systemau a'r rheolau sy'n sail iddynt. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn credu bod yr agwedd hon wedi arwain at leihad sylweddol yn nifer y camgymeriadau. Mae canran y darparwyr sydd wedi derbyn adroddiadau cymwysedig mewn perthynas â defnyddio arian wedi lleihau o 41% yn ystod 2005-06 i 22% yn ystod y flwyddyn gyfredol. Bydd yr agwedd hon yn cael ei monitro'n rheolaidd, ac yn cael ei hasesu er mwyn sicrhau bod y gwelliannau'n parhau.

Cryfhau mesurau rheoli a threfniadau archwilio

(iv) Dylai Llywodraeth y Cynulliad gyflwyno system reoli fewnol o safon sylfaenol ar gyfer ei holl ddarparwyr hyfforddiant o ddechrau'r cyfnod contractio newydd yn 2007. Dylai'r safon fod yn llym, a dylid ei haddasu yn ôl maint y sefydliad a lefel y cyllid a gaiff. Dylid gofalu bod gan bob sefydliad system wirio i sicrhau bod yr arian a dderbynnir yn cael ei ddyrannu'n briodol.

Ymateb

Derbyniwyd. Paratowyd canllawiau ar gyfer y cylch contractio cyfredol ac fe'u dosbarthwyd i ddarparwyr a'u rhoi ar wefan Llywodraeth y Cynulliad ym mis Awst 2006. Mae'r canllawiau yn pennu'r gofynion allweddol o ran tystiolaeth y mae'n rhaid i ddarparwyr gydymffurfio â hwy er mwyn cefnogi'r arian a dalwyd iddynt gan Lywodraeth y Cynulliad. Bydd y ddogfen hon yn cael ei diweddarau a'i ail-chyhoeddi er mwyn cyd-fynd â Manyleb ddiwygiedig y Rhaglen ar gyfer y cylch contractio o fis Awst 2007 ymlaen.

(v) Fel rhan o'r broses o Adolygu Perfformiad Darparwyr, dylai Llywodraeth y Cynulliad ddsbarthu systemau rheoli mewnol darparwyr hyfforddiant naill ai fel system 'dderbyniol' neu 'annerbyniol'. Dylai'r asesiadau hyn gynnwys canlyniadau'r holl waith o archwilio darparwyr, gan gynnwys sut y maent yn defnyddio'r arian a gânt.

Ymateb

Derbyniwyd. O dan y system bresennol o Adolygu Perfformiad Darparwyr (PPR), caiff yr holl ddarparwyr eu categoreiddio o dan 'boddhaol', 'rhai pryderon', neu 'pryderon difrifol' at ddibenion archwilio, gan roi ystyriaeth i'r holl dystiolaeth archwilio sydd ar gael ar adeg yr adolygiad. Ar gyfer adolygiadau'r dyfodol

byddant yn cael eu crynhoi o dan 'derbyniol' ac 'annerbyniol'. Cynhelir yr Adolygiad Llawn nesaf o Berfformiad Darparwyr yn ystod hydref 2007.

(vi) Dylai Llywodraeth y Cynulliad fabwysiadau dull hyblyg o gynnal archwiliadau, gan ddibynnu ar systemau lle bo hynny'n briodol, ond gan chwilio am dystiolaeth archwilio fwy uniongyrchol lle aseswydbod mwy o risg, fel yn achos llawer o'r darparwyr bach.

Ymateb

Derbyniwyd. Mae'r cydbwysedd o ran y systemau a'r dulliau profi data wedi'u pennu mewn strategaeth archwilio tair blynedd sy'n seiliedig ar risg a chaiff ei hadolygu bob blwyddyn er mwyn llunio cynllun blynyddol. Mae'r strategaeth hon yn cynnwys agweddau gwahanol ar gyfer darparwyr mawr a bach eu maint. Ymwelir â darparwyr sydd â chontractau gwerth dros £1 miliwn bob blwyddyn. Caiff y darparwyr llai sy'n peri mwy o risg eu hadolygu bob blwyddyn a chaiff darparwyr llai sy'n peri risg canolig eu hadolygu bob yn ail flwyddyn. Daw'r strategaeth 3 blynedd bresennol i ben ar 31 Mawrth 07 a bydd strategaeth ddiwygiedig yn cael ei pharatoi ar gyfer y cyfnod 3 blynedd o 1 Ebrill 2007 ymlaen.

(vii) Dylai Llywodraeth y Cynulliad ddechrau gweithdrefnau blaenoriaethu yn awtomatig gyda'r holl ddarparwyr hynny sydd, ar ôl eu hasesu, â systemau rheoli mewnol 'annerbyniol', ac sydd, wedyn, yn methu cwblhau eu hunanarchwiliadau o fewn y cyfnod y cytunwyd arno. Dylai Llywodraeth y Cynulliad hefyd fonitro canlyniadau'r hunanarchwiliadau'n ofalus i sicrhau, pan fo angen adennill symiau sylweddol o arian, eu bod yn mynd i wraidd y problemau a'u datrys drwy, er enghraifft, gynnig hyfforddiant neu ganllawiau ychwanegol.

Ymateb

Derbyniwyd. Bydd yr holl ddarparwyr sydd â chanlyniadau archwilio cymwys ac sydd heb gwblhau yr hunanarchwiliadau o fewn yr amserlen a gytunwyd yn wynebu gweithdrefnau archwilio cyflym. Mae'r weithdrefn eisoes wedi'i gweithredu ar gyfer yr holl ymweliadau a gofnodwyd ar ôl 1 Tachwedd 2006. Ar gyfer yr hunanarchwiliadau, paratowyd rhestrau gwirio gan Wasanaeth Llywodraethu ac Archwilio Darparwyr yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau sy'n darparu canllaw cam wrth gam ar gyfer paratoi a chynnal yr archwiliad. Derbyniodd y darparwyr y canllawiau cyn i'r hunanarchwiliadau gychwyn. Wrth fonitro canlyniadau'r archwiliadau rheolaidd a'r hunanarchwiliadau, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i nodi unrhyw anghenion o ran hyfforddiant a chanllawiau sy'n codi yn sgil gwendidau thematig.

Trefniadau contract gyda darparwyr hyfforddiant yn y dyfodol

(viii) Dylai Llywodraeth y Cynulliad gynnal cylch contractio 2007 ar sail asesiad cadarn o safonau a gallu darparwyr hyfforddiant, a dylai egluro sut berfformiad y mae'n ei ddisgwyl gan y darparwyr y mae'n eu penodi i gyflwyno'r rhaglenni Dysgu Seiliedig ar Waith. Dylai'r contractau hefyd gynnwys trefniadau i weithio am gyfnod prawf er mwyn medru delio'n deg ac yn gadarn ag unrhyw dystiolaeth o berfformiad gwael.

Ymateb

Derbyniwyd. Mae'r gwaith paratoi ar gyfer cylch contractio 2007 wedi dechrau. Mae Manyleb y Rhaglen yn rhan o'r contract gyda'r darparwyr ac mae wedi ei diwygio a'i symleiddio er mwyn sicrhau bod y safonau perfformiad a ddisgwylir oddi wrth y darparwyr yn gwbl glir.

Yn ogystal, bydd y meini prawf ar gyfer dyfarnu contractau wedi eu seilio ar safonau a ddiffiniwyd ymlaen llaw sydd, yn eu tro, wedi'u seilio ar y sylfaen wybodaeth a ddatblygwyd drwy Adolygu Perfformiad Darparwyr. O fewn y meini prawf, y mae'n bwysig sicrhau bod digon o ddarparwyr ar ôl ar gyfer yr ystod o wahanol rhaglenni, pynciau a lleoliadau daearyddol sydd eu hangen er mwyn diwallu anghenion dysgwyr a busnesau presennol ac yn y dyfodol. Bydd y meini prawf yn barod i'w cyhoeddi gyda'r fanyleb dendro ym mis Rhagfyr 2006.

Mae'r contractau'n cael eu diwygio ar hyn o bryd a byddant yn cynnwys trefniadau cyfnod prawf cadarn. Byddant yn barod i'w dosbarth yn ystod haf 2007.

(ix) Yn ogystal â mynnu bod darparwyr unigol yn paratoi cynlluniau gweithredu adferol, dylai Llywodraeth y Cynulliad ddefnyddio canlyniadau'r broses o Adolygu Perfformiad Darparwyr yn sail i'r camau y penderfynir eu cymryd i ddelio â'r diffygion yn eu cyfanrwydd, er enghraifft diffygion mewn lefelau cyrhaeddiad dysgwyr, ac i nodi a hybu arfer da er mwyn codi safonau'n gyffredinol.

Ymateb

Derbyniwyd. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad nifer o strategaethau yn eu lle i fynd i'r afael â'r diffygion yn y rhwydwaith darparwyr, a nodwyd yn yr Arolygiadau o Berfformiad Darparwyr ac arolygiadau Estyn:

- Yn ogystal â rhoi cymorth ymgynghori unigol i ddarparwyr, mae'r rhaglen Cynghorwyr Gwella Perfformiad hefyd yn cynnwys gweithgareddau 'arferion da' ar gyfer yr holl ddarparwyr. Cynhaliwyd y cyntaf ohonynt (gan gynnwys*

cyrhaeddiad dysgwyr) ym mis Mawrth 2006 a chynhelir yr ail, gan gynnwys sesiynau ar reoli data ac amddiffyn plant, ym mis Tachwedd 2006.

- Rhwng Hydref 2005 a Mehefin 2006, cefnogodd y Gronfa Gwella Safonau, a oedd werth £500 mil, 15 prosiect cydweithredol o dan arweiniad y darparwyr. Cynlluniwyd y 15 prosiect er mwyn mynd i'r afael â diffygion cyffredin ym maes dysgu ôl-16. Mae canfyddiadau'r prosiectau wedi cael eu dosbarthu ar wefan Llywodraeth y Cynulliad a thrwy rhwydweithiau darparwyr Dysg. Cynlluniwyd ail gylch ariannu ar gyfer 2007-08.*
- Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cefnogi cyfres o brosiectau ar wahân i gefnogi darparwyr i wella'u dulliau hyfforddi, arweiniad a rheoli ym maes dysgu seiliedig ar waith, ynghyd â safon y rhaglenni dysgu cyn lefel mynediad.*

Yn ystod 2007, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn mynd ati i adolygu'r broses o gynnal Adolygiadau o Berfformiad darparwyr er mwyn cryfhau'r broses. Bydd hyn yn cynnwys ystyried ymhellach y dulliau ar gyfer mynd i'r afael â diffygion, megis lefelau cyrhaeddiad isel ymhlith dysgwyr, fel y nodwyd drwy'r Adolygiadau o Berfformiad Darparwyr.